



PACEY Cymru  
Ystafell G.16  
Y Maltings  
Stryd East Tyndall  
Caerdydd  
CF24 5EZ  
0845 8801299  
Ebst: [paceycymru@pacey.org.uk](mailto:paceycymru@pacey.org.uk)

22 Mai 2017

Annwyl Syr/Madam

### **Parthed: Y Blynyddoedd Cynnar – Addunedau'r Etholiad**

Ysgrifennaf ar ran ein 1650 o aelodau yng Nghymru - gwarchodwyr plant, nanis, gweithwyr meithrin a myfyrwyr - i ofyn am eich cefnogaeth wrth i chi lunio polisiau allweddol eich plaid ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol. Ein nod fel Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) yw bod pob plentyn yn cael gofal plant a dysgu cynnar o ansawdd uchel. Cefnogwn ein haelodau i ddarparu gofal plant a dysgu cynnar ansawdd uchel trwy hyfforddiant, adnoddau, cyngor a chefnogaeth gan gymheiriaid a hyrwyddo'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth helpu paratoi plant ar gyfer dyfodol disglair. Mae PACEY Cymru'n cefnogi aelodau a phob darparwr gofal plant yn y cartref yng Nghymru i ddarparu'r safonau gofal gorau posibl i blant. Gweithiwn yn agos gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ac asiantaethau allweddol eraill i sicrhau bod teuluoedd ledled Cymru'n cael mynediad i ofal plant fforddiadwy, o ansawdd.

Mae disgwyl i'r flwyddyn nesaf fod yn hanfodol i'r sector, wrth i ddarparwyr ac awdurdodau lleol baratoi ar gyfer y peilot a gweithredu'r arlwy gofal plant o 30 awr ymhellach. Rydym yn ymwybodol hefyd fod cynaliadwyedd gwarchod plant yn allweddol i sicrhau argaeledd a hygyrchedd gofal plant o ansawdd i gefnogi'r arlwy. Edrychwyd ar y dirywiad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig dros y blynyddoedd diwethaf yn ein hadroddiad diweddar '[Childminder De-registrations in Wales](#)'. Dengys ein gwaith bod cryn ansicrwydd yn y sector ynghylch gweithrediad yr arlwy gofal plant 30 awr sy'n debygol o effeithio ar y defnydd gan ddarparwyr a bod hyder mewn rhagolygon ariannol y dyfodol i lawr ar y cyfan. Beth all y llywodraeth nesaf ei gwneud i fagu hyder y sector - ac adeiladu ar ei angerdd, ei ymroddiad a chynyddu ei broffesiynoldeb.

Mae PACEY yn galw ar bob plaid wleidyddol i wneud pedair addewid i gefnogi plant ifanc a'u teuluoedd os byddant yn ffurfio llywodraethau yng Nghymru neu Loegr:

1. Darparu cyllid cynaliadwy ar gyfer gofal plant a ariennir a lleoedd addysg gynnar, felly gellir cyflawni'r estyniad i 30 awr i bob teulu gwaith sydd ei angen;

2. Rhoi ansawdd wrth wraidd pob polisi gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a phenderfyniadau ariannu, er mwyn i'r holl blant dderbyn y dysgu cynnar o ansawdd uchel sy'n rhoi sail gref iddynt ar gyfer y dyfodol;
3. Cyflwyno strategaeth gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ar y cyd â'r sector sy'n cael gwared ar y rhwystrau allweddol i ddilyniant gyrfa ac sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg am y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae.
4. Hyrwyddo gofal plant, yn enwedig gwarchod plant, fel dewis gyrfa werthfawr ac ymarferol, cynyddu cyfraddau recriwtio a chadw a chefnogi arlwy gofal plant amrywiol i deuluoedd.

Gyda'i gilydd, nod y pedwar addewid hyn yw sicrhau bod yr *holl* blant ifanc yn cael mynediad i ofal plant a darpariaeth addysg gynnar ansawdd uchel, gan wella symudedd cymdeithasol ac yn y pendraw, sicrhau bod gennym y sgiliau sydd eu hangen ar ein heconomi yn y dyfodol. Byddwn yn hapus i drafod yr addewidion hyn yn fanylach gyda chi; cysylltwch os gallaf fod o gymorth.

Dymuniadau gorau,



**Claire Protheroe**

Rheolwr Gwasanaethau Uniongyrchol (Cymru)

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)